# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Chwefror 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

## 193(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg**

Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg bellach yng Nghampws Rhydaman Coleg Sir Gâr yn y dyfodol?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Cysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2022-23

(60 munud)

**NDM8495** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol 'Cysylltiadau Rhyngwladol: Adroddiad Blynyddol 2022-23', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2024.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(60 munud)

**NDM8496** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu y bydd cynllun ffermio cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru yn arwain at amcangyfrif o:

a) 122,200 o ostyngiad yn nifer y da byw yng Nghymru;

b) 5,500 o swyddi yn cael eu colli ar ffermydd Cymru; ac

c) colled o £199 miliwn i'r economi wledig.

2. Yn cydnabod cryfder y teimladau yn y gymuned amaethyddol yn erbyn y cynllun ffermio cynaliadwy.

3. Yn nodi'r arolwg a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad yng Nghymru sydd wedi canfod mai dim ond 3 y cant o ffermwyr yng Nghymru sy'n ymddiried yn Llywodraeth Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) dileu'r gofyniad i bob fferm gael 10 y cant o orchudd coed; a

b) dileu cynigion presennol y cynllun ffermio cynaliadwy ac ail-ymgysylltu â'r sector ffermio i ddatblygu cynllun newydd y mae'r gymuned ffermio yn ei gefnogi.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod cyfraniad allweddol ffermio ac amaethyddiaeth at dirlun cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru.

2. Yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal lefelau cynllun y taliad sylfaenol yn 2024 er mwyn hwyluso'r broses o drosglwyddo i'r cynllun ffermio cynaliadwy.

3. Yn croesawu'r ymgysylltu gyda ffermwyr a rhanddeiliaid sydd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol i'r gwaith o lunio'r cynllun ffermio cynaliadwy ers cyhoeddi'r cynllun amlinellol yn 2022.

4. Yn cefnogi diwygiadau pellach i'r cynllun ffermio cynaliadwy mewn ymateb i adborth oddi wrth ffermwyr yn ystod yr ymgynghoriad diweddar.

5. Yn nodi mai'r bygythiad mwyaf i sector ffermio cynaliadwy a diogelwch bwyd yng Nghymru yw effaith y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

6. Yn cymeradwyo bwriad y cynllun ffermio cynaliadwy i wobrwyo ffermwyr Cymru sy'n cymryd camau i ymateb i'r her honno.

7. Yn gresynu at bolisi Llywodraeth y DU o waredu sicrwydd o ran cyllid i ffermydd a lleihau cyllidebau, gan wneud y broses bontio yn fwy heriol ymhob un o wledydd y DU, gan greu ansicrwydd i ffermwyr.

## 7 Dadl Plaid Cymru - TB Buchol

(60 munud)

**NDM8494** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Yn cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi arolwg NFU Cymru ar TB mewn gwartheg yng Nghymru sy'n datgan:

a) bod 70 y cant o ffermwyr yn disgrifio dull Llywodraeth Cymru o ddileu TB fel un gwael iawn;

b) bod 85 y cant o ffermwyr yn dweud bod TB yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl, a bod 63 y cant o'r ffermwyr a holwyd yn beio bywyd gwyllt am drosglwyddo TB; ac

c) y gost ariannol gyfartalog amcangyfrifedig y flwyddyn i ffermydd a ddarparodd fanylion cost yw £25,677, gyda data ar draws yr holl ymatebwyr yn dangos dros 30 y cant yn amcangyfrif bod eu costau dros £10,000 a 13 y cant dros £50,000.

2. Yn gresynu at:

a) y baich ariannol ac iechyd meddwl aruthrol ar ffermwyr yng Nghymru a berir gan TB gwartheg; a

b) y diystyriaeth barhaus o farn arbenigol a thystiolaeth wyddonol gan Lywodraeth Cymru, ar draul gwartheg Cymru a lles ariannol a meddyliol ffermwyr Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynnal gwerthusiad ac arfarniad hirdymor o reolaethau gwartheg cyfredol ar frys i bennu eu heffeithiolrwydd cymharol wrth atal a rheoli trosglwyddo clefydau;

b) gwneud newidiadau ar unwaith i'r polisi lladd ar y fferm;

c) sefydlu polisïau sy'n adlewyrchu bywyd gwyllt fel ffynhonnell haint ac sy'n caniatáu dulliau difa a rheoli priodol a gwyddonol dilys; a

d) trafod gydag NFU Cymru, UAC a chynrychiolwyr eraill o'r sector amaeth yng Nghymru i sefydlu ffordd newydd ymlaen wrth bennu polisi TB gwartheg Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cefnogi'r ymgysylltu sy'n parhau gyda'r undebau amaeth er mwyn datblygu dull o ddileu TB sy'n gadarn a hefyd yn addas i'w diben.

2. Yn croesawu:

a) y gefnogaeth sydd ar gael i ffermwyr sy’n dioddef effaith ddifrifol TB ar eu fferm, gan gynnwys cefnogaeth gan Cymorth TB a hefyd y cymorth gan Tir Dewi; Rhwydwaith y Gymuned Ffermio; FarmWell Cymru; Sefydliad DPJ; a

b) dull y Llywodraeth o lunio polisi sy’n seiliedig ar dystiolaeth a chynnwys arbenigedd o’r radd flaenaf wrth ddatblygu polisi ar TB gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, y Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Twbercwlosis Buchol yng Nghymru ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion y DU.

3. Yn cefnogi:

a) camau i werthuso’n barhaus bolisi Llywodraeth Cymru ar TB, ar sail yr adolygiad targed ar gyfer y garreg filltir gyntaf a fydd yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn 2024 a Bwrdd y Rhaglen TB Buchol;

b) camau i sicrhau bod adolygu’r polisi o ladd ar ffermydd yn flaenoriaeth i’r Grŵp Cynghori Technegol newydd ar TB Buchol; ac

c) cynnwys undebau ffermio ar Fwrdd newydd y Rhaglen TB.

4. Yn gwrthwynebu’r gwaith o ddifa ar raddfa eang foch daear, sy’n rhywogaeth gynhenid i Gymru, fel ffordd o reoli TB Buchol.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8487** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Yr ymgyrch 'Spot Leukaemia' a mynediad at brofion gwaed

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 21/02/2024 i'w hateb ar 28/02/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ60726 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag awdurdodau lleol ynghylch rôl caffael wrth gefnogi cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yng Nghymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

2 OQ60749 **(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i ddiogelu cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol yn erbyn ansicrwydd cyllidol ac economaidd?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ60755 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i ddatblygu eu hymgysylltiad â chymunedau lleol a'u grymuso?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

4 OQ60738 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ariannu gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

5 OQ60751 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch sicrhau digon o gyllid i awdurdodau lleol er mwyn datblygu llwybrau lleol dim hawl i gyllid cyhoeddus?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

6 OQ60746 **(e)**

Pa gynnydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud ar weithio gyda llywodraeth leol i ddileu biwrocratiaeth feichus neu ddiangen?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ60735 **(w)** Tynnwyd yn ôl

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gynnal ynghylch y symiau canlyniadol sy'n ddyledus i Gymru o ganlyniad i'r fargen a'r pecyn cyllido gwerth £3 biliwn i adfer datganoli yng Ngogledd Iwerddon?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ60731 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod llywodraethau lleol yn blaenoriaethu gwasanaethau statudol yng Ngorllewin De Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OQ60754 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynglŷn â sicrhau digon o gyllid i lywodraeth leol er mwyn cefnogi'r broses o bontio i sero net?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OQ60733 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch goblygiadau ariannol y polisi terfyn cyflymder 20mya?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

11 OQ60719 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau treth gyngor yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

12 OQ60747 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol Fformiwla Barnett?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A’R TREFNYDD

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

1 OQ60745 **(e)**

Pa ganran o'r ffrwythau a llysiau sy'n cael eu bwyta yng Nghymru sy'n cael eu tyfu yng Nghymru?

2

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ60720 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gymunedau ffermio a gwledig Sir Ddinbych?

3

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ60728 **(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei chynlluniau i adolygu rheoliadau microsglodynnu anifeiliaid anwes yng Nghymru?

4

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

OQ60724 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y disgwylir y bydd cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei chael ar ffermwyr yng ngogledd Cymru?

5

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ60752 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o bwysigrwydd ffermio llaeth adfywiol i ddyfodol ffermio cynaliadwy yng Nghymru?

6

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ60721 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch rasio milgwn yng Nghymru?

7

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

OQ60741 **(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae'r Llywodraeth wedi'u cael gyda'r sector amaethyddol ynghylch y cynllun ffermio cynaliadwy arfaethedig?

8

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

OQ60742 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i gefnogi ffermydd yn y dyfodol?

9

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OQ60740 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector ffermio yn Sir Drefaldwyn?

**Peter Fox** *Mynwy*

10 OQ60750 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ffermwyr yn Sir Fynwy?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ60718 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddefnydd o deledu cylch cyfyng mewn lladd-dai?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

12 OQ60756 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y cynllun lles anifeiliaid i Gymru?